
HM Government
Llywodraeth EM

# Proffiliau Llwyddiant

## Profiad



# Beth yw Proffiliau Llwyddiant?

Mae'r Fframwaith Proffil Llwyddiant yn cael ei gyflwyno i ddenu a chadw pobl sydd â thalent a phrofiad o sectorau amrywiol ac o bob ran o fywyd, yn unol ag ymrwymiad Cynllun Gweithlu'r Gwasanaeth Sifil.

Mae'r Fframwaith Proffil Llwyddiant yn symud recriwtio i ffwrdd o ddefnyddio system asesu sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn unig. Mae'n cyflwyno fframwaith fwy hyblyg sy'n asesu ymgeiswyr yn erbyn amrywiaeth o elfennau drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau dethol. Bydd hwn yn rhoi'r cyfle gorau i ddod o hyd i'r person gorau ar gyfer y swydd, cynyddu perfformiad a gwella amrywiaeth a chynhwysiad.

Yr elfennau y gellir eu hasesu er mwyn dod o hyd i'r ymgeisydd gorau ar gyfer y rôl yw:

- **Ymddygiadau** - gweithredoedd a gweithgareddau y mae pobl yn eu gwneud sy'n arwain at berfformiad effeithiol mewn swydd.
- **Cryfderau** - y pethau rydym yn eu gwneud yn rheolaidd, yn eu gwneud yn dda ac sy'n ein hysgogi.
- **Gallu** - y dawn neu'r potensial i berfformio i'r safon gofynnol.
- **Profiad** - y wybodaeth neu'r feistrolaeth o weithgaredd neu bwnc ag enillir trwy ymglymiad neu amlygiad iddo.
- **Technegol** - yr arddangosiad o sgiliau, gwybodaeth neu gymwysterau proffesiynol.

Nid yw pob elfen yn berthnasol i bob rôl, felly dylai cynnwys y Proffil Llwyddiant fod yn wahanol ar gyfer gwahanol mathau o swyddi er mwyn gwella'r cyfle o gael y person gorau ar gyfer y rôl.

# Profiad

Profiad yw gwybodaeth neu feistrolaeth o weithgaredd neu bwnc a enillwyd trwy gymryd rhan ynddo neu amlygiad iddo.

Yn y Gwasanaeth Sifil, yn aml mae angen profiad ar gyfer recriwtio i rolau neu uwch rolau yn y proffesiynau.

# Pam rydym yn asesu profiad

## Wrth edrych ar eich profiad, rydym yn chwilio am enghreifftiau o'r pethau rydych wedi'u cyflawni o'r blaen neu'ch gwybodaeth mewn maes penodol sy'n berthnasol i rôl y swydd.

Nid ydym yn edrych ar faint o amser yr ydych wedi ei wasanaethu mewn maes penodol, ond yn hytrach sut y gwnaethoch berfformio.

Weithiau gall profiad gael ei drosglwyddo o gyd-destun di-waith. Gall sgiliau a enillir trwy waith gwirfoddol neu hobi, fel gwaith tîm neu gyfathrebu, ddangos y profiad sy'n ofynnol ar gyfer y rôl.

# Sut rydym yn asesu profiad

## Byddwn yn edrych ar eich profiad, eich hanes gyrfa a'ch cyflawniadau sy'n berthnasol i rôl y swydd benodol.

Mae rhai o'r dulliau asesu a all gael eu defnyddio i ddeall eich profiad yn cynnwys:

- Ffurflen Gais
- CV
- Cyfweliad.

Efallai y bydd eich profiad yn cael ei asesu ochr yn ochr ag elfennau eraill o'r Proffil Llwyddiant i gael darlun mwy cyflawn o'ch addasrwydd ar gyfer y swydd. Bydd y disgrifiad swydd yn amlinellu'r elfennau sy'n ofynnol ar gyfer y rôl a'r dull(iau) dethol a ddefnyddir.

Mae'r Gwasanaeth Sifil yn gweithlu amrywiol a chynhwysol ac rydym am eich helpu i ddangos eich potensial llawn waeth beth yw'r math o asesiad sy'n cael ei ddefnyddio. Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch i'n broses recriwtio, rhowch wybod i'r rheolwr recriwtio. Mae enghreifftiau o addasiadau yn cynnwys darparu dogfennau mewn print bras neu braille, yn caniatáu mwy o amser ar gyfer prawf neu gyfweliad neu ddarparu cymorth mewn canolfan asesu.